First Release
Datganiad Cyntaf

SDR 186/2014 6 Tachwedd 2014

# Arolwg Cenedlaethol Cymru: Prif ganlyniadau, Ebrill 2012 - Mawrth 2014

Arolwg wyneb yn wyneb o bobl ledled Cymru yw Arolwg Cenedlaethol Cymru. Bob blwyddyn, gofynnir i fwy na 14,500 o bobl 16 oed a throsodd am eu barn ar amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio arnynt hwy a'u hardal leol. Dewisir yr ymatebwyr ar hap er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n gynrychioliadol.

Canlyniadau 2013-14 a gyhoeddwyd ym mis Mai 2014 yw'r canlyniadau mwyaf diweddar o hyd o'r Arolwg Cenedlaethol; fodd bynnag, cafodd mwyafrif helaeth o'r cwestiynau a ofynnwyd yn 2013-14 eu cynnwys yn arolwg 2012-13 hefyd. Ar gyfer y cwestiynau hyn, gallwn gyfuno canlyniadau'r ddwy flwyddyn (fel bod gennym set ddata o 29,323 o ymatebwyr). Mae hyn yn ein galluogi i lunio dadansoddiadau mwy manwl ar lefel awdurdod lleol neu fwrdd iechyd ac mae'n ei gwneud yn haws i nodi unrhyw wahaniaethau rhwng ardaloedd. Mae hefyd yn ein galluogi i gynnal dadansoddiad manylach o rai is-grwpiau llai: gwaith dadansoddi na fyddai wedi bod yn ddibynadwy pe defnyddiwyd canlyniadau arolwg un flwyddyn yn unig.

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno rhai o'r canlyniadau allweddol o'r set ddata gyfunol hon ar gyfer 2012-14. Lle mae prif ffigur diweddaraf 2013-14 yn wahanol i ffigur cyfunol 2012-14, nodir hyn yn y testun. Lle y bo'n briodol, caiff y canlyniadau eu cymharu â chanlyniadau o arolygon eraill hefyd. Yn gyffredinol, lle cafwyd gwahaniaeth sylweddol rhwng canlyniadau 2012-13 a rhai 2013-14, nid yw'r canlyniadau wedi cael eu cyfuno at ddibenion dadansoddi yn y datganiad hwn oherwydd gallai gelu newid gwirioneddol yn y data rhwng y blynyddoedd dan sylw. Lle ceir eithriad i hyn, fe'i heglurir yn y datganiad.

Rhoddir tablau â chyfyngau hyder a gwybodaeth am ba mor gywir yw'r canlyniadau ar wefan StatsCymru ar ôl i'r datganiad hwn gael ei gyhoeddi. Ceir rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg, y defnydd y gellid ei wneud o'r canlyniadau, a diffiniadau o'r termau a ddefnyddir yn y bwletin yn adran Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd y ddogfen hon. Mae gwybodaeth gefndirol am yr arolwg, yn cynnwys yr holiaduron llawn a dadansoddiad o'r canlyniadau o 2012-13 a 2013-14 ar wahân, ar gael ar dudalennau gwe'r Arolwg Cenedlaethol.

## Canfyddiadau allweddol

### Iechyd

- Mae cwestiynau ar foddhad unigolion â gofal meddygon teulu ac ysbytai, mynediad at ofal a chynnwys cleifion wedi'u cynnwys yn Arolwg Cenedlaethol 2012-13 a 2013-14. Drwy gyfuno

**Ystadegydd:** Lisa Walters **Ffôn:** 029 2082 6685 **E-bost:** arolygon@cymru.gsi.gov.uk
**Diweddariad nesaf:** Hydref 2015 (dros dro)
**Twitter:** www.twitter.com/statisticswales | www.twitter.com/ystadegaucymru

Cyhoeddwyd gan Y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
Ffôn – Swyddfa'r Wasg **029 2089 8099**, Ymholiadau Cyhoeddus **029 2082 3332**
**www.cymru.gov.uk/ystadegau**

Issued by Knowledge and Analytical Services
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ
Telephone – Press Office **029 2089 8099**, Public Enquiries **029 2082 5050**
**www.wales.gov.uk/statistics**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

chynnwys cleifion wedi'u cynnwys yn Arolwg Cenedlaethol 2012-13 a 2013-14. Drwy gyfuno canlyniadau 2012-13 a 2013-14, gallwn gynnal dadansoddiad manylach na fyddai wedi bod yn gadarn pe defnyddiwyd canlyniadau un flwyddyn yn unig. Er enghraifft, nawr gallwn edrych ar y rheini a oedd yn cytuno'n 'gryf' neu'n anghytuno'n 'gryf' â datganiadau penodol. Gallwn hefyd gyflwyno canlyniadau yn ôl statws cyflogaeth ac ardal bwrdd iechyd. Mae'r canfyddiadau yn cynnwys y canlynol.

- Roedd 99% o'r rheini a oedd yn 'cytuno'n gryf' eu bod wedi cael yr holl wybodaeth angenrheidiol yn eu hapwyntiad meddyg teulu yn fodlon ar eu gofal, o gymharu â 25% o'r rhai a oedd yn 'anghytuno'n gryf'.
- Roedd 97% o'r bobl a oedd yn 'cytuno'n gryf' bod gan y gweithiwr iechyd proffesiynol yr holl wybodaeth berthnasol yn fodlon ar eu gofal yn yr ysbyty, o gymharu â 45% o'r rheini a oedd yn 'anghytuno'n gryf'.

## Gwasanaethau awdurdodau lleol

- Drwy ddefnyddio prif ffigurau 2012-13 a 2013-14 bu modd inni edrych ar gyfran y bobl a oedd yn cytuno â datganiadau amrywiol ynghylch gwasanaethau awdurdodau lleol ar lefel awdurdod lleol. Fodd bynnag, drwy gyfuno canlyniadau 2012-13 a 2013-14 gallwn nawr edrych ar y canlyniadau hyn yn fanylach: er enghraifft, yr hyn y mae pobl mewn tai cymdeithasol mewn awdurdod lleol penodol yn ei feddwl am eu gwasanaethau. Ymhlith y canfyddiadau mae'r canlynol:
  - Y bobl hynny a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol yn Wrecsam oedd y lleiaf tebygol o gytuno bod eu cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, (44%), tra'r rheini mewn tai cymdeithasol yn Sir Ddinbych oedd y mwyaf tebygol o gytuno (61%).

## Ansawdd yr ardal leol

- Yn 2013-13 a 2013-14, roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cyfres o gwestiynau ar ansawdd yr ardal leol, a oedd ar gael ar lefel awdurdod lleol. Mae canlyniadau cyfunol 2012-14 yn ein galluogi i edrych ar y rhai a oedd â barn gref iawn am eu hardal, hynny yw a oedd yn cytuno neu'n anghytuno'n 'gryf' â'r datganiadau hyn. Er enghraifft:
  - Roedd 20% o bobl yn cytuno'n 'gryf' â'r datganiad 'mae fy ardal leol yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda'. Roedd hyn yn amrywio fesul awdurdod lleol, gyda 32% o bobl a oedd yn byw ar Ynys Môn yn cytuno'n gryf bod eu hardal leol yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda, o gymharu â 12% o bobl a oedd yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
  - Roedd 19% o bobl yn cytuno'n gryf nad oedd sbwriel yn eu hardal leol. Roedd 31% o bobl a oedd yn byw ar Ynys Môn yn cytuno'n gryf nad oedd sbwriel yn eu hardal leol, o gymharu â 10% o bobl a oedd yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

## Addysg

- Dim ond rhieni neu warcheidwaid a holwyd am foddhad ag ysgolion a'r profiad o ddelio ag ysgolion ac athrawon. Roedd hyn yn golygu bod nifer yr ymatebion ar gyfer y cwestiynau hyn yn llawer llai na rhannau eraill o'r arolwg, ac nid oedd yn bosibl inni ddadansoddi'r cwestiynau hyn fesul ardal awdurdod lleol. Drwy ddefnyddio canlyniadau cyfunol 2012-14 bu modd inni gynnal dadansoddiadau manylach o'r data. Er enghraifft:
  - Mae boddhad ag ysgolion uwchradd yn amrywio ar draws pob ardal consortia[1], gyda rhieni sy'n byw yng Nghanol De Cymru yn llai bodlon na'r rheini yn y De-orllewin a'r Canolbarth.
  - Roedd 92% o rieni yn Sir Benfro o'r farn eu bod yn cael gwybod am berfformiad ysgol gynradd eu plentyn, o gymharu ag 80% yng Nghaerdydd.
  - Roedd 95% o rieni ym Mhowys yn cytuno eu bod wedi gallu cwrdd ag athro pan oeddent am wneud hynny o fewn cyfnod rhesymol, o gymharu â 78% o rieni yn Rhondda Cynon Taf.
  - Roedd tadau yn llai tebygol na mamau o edrych ar lyfrau neu ddarllen storïau gyda'u plant, eu helpu i ddarllen neu ysgrifennu, a helpu gyda gwaith ysgol 'bob dydd'.

---

[1] Gweler 'Termau a Diffiniadau' am ddisgrifiad o'r ardaloedd awdurdod lleol sydd o fewn pob ardal consortia

## Lles

- Yn 2012-13 a 2013-14, gofynnwyd i bobl raddio eu bodlonrwydd ag agweddau gwahanol o'u bywydau ar raddfa o 0 (ddim yn fodlon o gwbl) i 10 (yn hollol fodlon). Gyda dwy flynedd o ddata, roedd yn bosibl edrych ar foddhad pobl â'r agweddau hyn ar fywyd drwy eu dadansoddi mewn ffyrdd amrywiol, na fyddent wedi bod yn gadarn pe defnyddiwyd un flwyddyn o ddata yn unig. Er enghraifft:
  - Ym Merthyr Tudful (7.5) a Chaerdydd (7.6) y cafwyd y lefelau boddhad isaf yn hyn o beth tra nododd y rheini a oedd yn byw ar Ynys Môn (7.9) ac yng Ngwynedd (8.0) lefelau boddhad a oedd uwchlaw cyfartaledd Cymru sef 7.7. allan o 10.
  - Roedd pobl a oedd yn byw mewn ardaloedd trefol ac mewn tai cymdeithasol neu dai rhentu preifat yn llai tebygol o feddwl bod yr hyn roeddent yn ei wneud yn eu bywydau yn werth chweil.

## Gwahaniaethu

- Gofynnwyd cwestiynau ar wahaniaethu yn 2012-13 a 2013-14. Fodd bynnag, nid adroddwyd arnynt yn flaenorol gan fod y canrannau wedi bod yn rhy fach i fod yn ddibynadwy. Drwy gyfuno dwy flynedd o ddata gallwn edrych ar ganlyniadau'r cwestiwn hwn am y tro cyntaf.
  - Dywedodd 92% o bobl nad oeddent wedi profi unrhyw wahaniaethu. Roedd hyn yn amrywio fesul awdurdod lleol, gydag 88% o bobl yng Nghaerdydd yn dweud nad oeddent wedi profi unrhyw wahaniaethu, aflonyddu na cham-drin, o gymharu â 94% o bobl yn Sir Gaerfyrddin.
  - Mae pobl 65 oed a throsodd yn llai tebygol o fod wedi profi gwahaniaethu, aflonyddu neu gam-drin na phobl o dan 65 oed.

## Teimlo'n ddiogel

- Gan mai dim ond 4% o bobl yn 2012-13 a 2013-14 a ddywedodd nad oeddent yn teimlo'n ddiogel gartref ar ôl iddi dywyllu, roedd yn anodd dadansoddi pwy nad oeddent yn teimlo'n ddiogel gan fod y sampl yn rhy fach. Gyda dwy flynedd o ganlyniadau mae nawr yn bosibl edrych ar y gwahaniaethau mewn canfyddiadau o ddiogelwch gartref yn ôl newidynnau eraill. Er enghraifft:
  - Roedd canfyddiadau o ddiogelwch yn amrywio ar draws awdurdodau lleol. Caerdydd (92%) a Chasnewydd (93%) oedd â'r gyfran isaf o bobl a oedd yn teimlo'n ddiogel gartref ar ôl iddi dywyllu, o gymharu â 98% yn teimlo'n ddiogel yng Ngheredigion a 99% yn teimlo'n ddiogel ym Mhowys.

## Cyllid personol

- Gofynnwyd i bobl yn 2012-13 a 2013-14 p'un a oeddent yn gallu ymdopi â'u holl filiau ac ymrwymiadau heb unrhyw anawsterau. Mae dwy flynedd o ganlyniadau yn ein galluogi i edrych ar y canlyniadau'n fanylach. Er enghraifft:
  - Blaenau Gwent (31%) a Thorfaen (36%) oedd â'r ganran isaf o bobl a allai wneud hynny. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan (49% yn gallu ymdopi â biliau). Roedd gan Gonwy a Bro Morgannwg gyfrannau uwch o bobl a allai ymdopi â'u biliau (58% ill dau).
  - Dywedodd 40% o'r rheini a oedd 'yn cael trafferthion ariannol gwirioneddol ac wedi methu talu nifer o filiau neu ymrwymiadau credyd' eu bod wedi defnyddio gwasanaethau sefydliad sy'n darparu cyngor a chymorth i bobl sy'n cael problemau gyda dyledion dros y 12 mis diwethaf.
  - Roedd pobl 25-44 oed yn fwy tebygol o geisio cyngor a chymorth na'r rheini yn y grwpiau oedran eraill.

## Cynnwys

Iechyd ..........6
Gwasanaethau awdurdodau lleol ..........12
Ansawdd yr ardal leol ..........15
Addysg ..........17
Lles ..........21
Gwahaniaethu ..........25
Teimlo'n ddiogel ..........27
Cyllid personol ..........29
Gwybodaeth allweddol o ansawdd ..........31
Termau a diffiniadau ..........35

**Rhestr o siartiau**


| | | |
|---|---|---|
| Siart 1: | Canran a oedd yn fodlon ar ofal eu meddyg teulu yn ôl p'un a oeddent yn cytuno eu bod hwythau (neu ofalwr) wedi cael yr holl wybodaeth angenrheidiol | 7 |
| Siart 2: | Rhesymau dros nodi ei bod hi'n anodd gwneud apwyntiad cyfleus gyda meddyg teulu yn ôl statws cyflogaeth | 8 |
| Siart 3: | Canran a oedd yn fodlon ar ofal ysbyty yn ôl p'un a oeddent yn cytuno bod y gweithiwr iechyd proffesiynol yn gwybod yr holl wybodaeth berthnasol | 9 |
| Siart 4: | Cael gwybod am berfformiad gwasanaethau iechyd lleol yn ôl bwrdd iechyd lleol | 10 |
| Siart 5: | Canran sydd o'r farn eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar wasanaethau iechyd lleol yn ôl oedran | 11 |
| Siart 6: | Canran a fyddai'n hoffi chwarae mwy o ran mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar wasanaethau iechyd lleol yn ôl oedran | 11 |
| Siart 7: | Cyfran y bobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol sy'n cytuno neu'n anghytuno bod eu cyngor yn darparu gwasanaethau o safon uchel, yn ôl awdurdod lleol | 12 |
| Siart 8: | Pobl a oedd yn cytuno â datganiadau am eu cyngor, yn ôl awdurdod lleol | 13 |
| Siart 9: | Cyfran y bobl sy'n cytuno'n gryf neu'n anghytuno'n gryf fod eu hardal leol yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda, yn ôl awdurdod lleol | 15 |
| Siart 10: | Cyfran y bobl sy'n cytuno'n gryf neu'n anghytuno'n gryf nad oes sbwriel yn eu hardal leol, yn ôl awdurdod lleol | 16 |
| Siart 11: | Cyfran y bobl sy'n cytuno'n gryf bod eu hardal leol yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda, yn ôl awdurdod lleol | 16 |
| Siart 12: | Boddhad ag ysgolion uwchradd, yn ôl ardal consortia | 17 |
| Siart 13: | Mae rhieni o'r farn eu bod yn cael gwybod am berfformiad ysgol gynradd eu plentyn, yn ôl awdurdod lleol | 18 |
| Siart 14: | Cytundeb rhieni eu bod yn gallu cwrdd ag athrawon pan eu bod am wneud hynny o fewn cyfnod rhesymol o amser, yn ôl awdurdod lleol | 19 |
| Siart 15: | Y rhan a chwaraeir gan rieni mewn gweithgareddau gyda'u plant (3-7 oed) bob dydd, yn ôl rhyw | 20 |
| Siart 16: | Boddhad ag agweddau ar fywyd | 21 |
| Siart 17: | Boddhad â chydberthnasau personol yn ôl grŵp oedran | 22 |
| Siart 18: | Teimlo bod y pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil, yn ôl y math o ddeiliadaeth a rhaniad trefol/gwledig | 22 |
| Siart 19: | Boddhad â bywyd y dyddiau hyn, yn ôl awdurdod lleol | 23 |
| Siart 20: | Boddhad â'r amser sydd ar gael i wneud y pethau y mae pobl yn mwynhau eu gwneud, yn ôl grŵp oedran a rhaniad gwledig/trefol | 23 |
| Siart 21: | Boddhad â sefyllfa ariannol y cartref/personol yn ôl statws cyflogaeth a'r lefel uchaf o gymhwyster a enillwyd | 24 |
| Siart 22: | Dim profiad o wahaniaethu, yn ôl awdurdod lleol | 25 |
| Siart 23: | Dim profiad o wahaniaethu, yn ôl oedran | 26 |
| Siart 24: | Teimlo'n ddiogel gartref ar ôl iddi dywyllu, yn ôl awdurdod lleol | 27 |
| Siart 25: | Teimlo'n ddiogel gartref ar ôl iddi dywyllu, yn ôl grŵp oedran | 28 |
| Siart 26: | Ymdopi â'r holl filiau ac ymrwymiadau heb unrhyw drafferth, yn ôl awdurdod lleol | 29 |
| Siart 27: | Y rhai sy'n defnyddio sefydliad sy'n rhoi cyngor a chefnogaeth i bobl sy'n cael problemau gyda dyledion, yn ôl eu gallu i ymdopi â biliau ac ymrwymiadau credyd | 30 |

## Iechyd

Mae cynllun pum mlynedd y Rhaglen Lywodraethu a Law yn Llaw at Iechyd yn nodi ymrwymiadau allweddol sy'n anelu at wella mynediad at ofal iechyd sylfaenol a darparu gofal o ansawdd uchel yn gyson ym mhob rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Mae canfyddiad y cyhoedd yn bwysig wrth bennu a yw Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd mewn perthynas â'r ymrwymiadau hyn.

Mae Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun cyflawni ar gyfer rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn cyflwyno'r prif amcanion o ran gwella mynediad at wybodaeth, cynyddu tryloywder perfformiad gwasanaethau iechyd a helpu cleifion i ymgysylltu'n well â gwasanaethau iechyd. Mae Adroddiad y Prif Swyddog Meddygol ar gyfer 2012-13 yn tanlinellu pwysigrwydd hysbysu'r cyhoedd am berfformiad gwasanaethau iechyd a rhoi mwy o gyfleoedd iddynt ymgysylltu.

Yn 2012-13 a 2013-14, roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cwestiynau ar foddhad â gofal, mynediad at ofal a chynnwys cleifion a defnyddir y canlyniadau i fesur cynnydd yn erbyn yr amcanion hyn. Drwy ddefnyddio canlyniadau 2012-13 a 2013-14 ar wahân, gallem edrych ar y prif ganlyniadau ar gyfer y maes hwn, ond drwy ddefnyddio'r canlyniadau gyda'i gilydd gallwn gynnal dadansoddiad manylach lle nad oedd canlyniadau yn ddigon cadarn wrth ddefnyddio canlyniadau un flwyddyn yn unig.

### Boddhad â'r gofal a gafwyd mewn meddygfa a phrofiad y claf


Gofynnwyd i bobl a oedd wedi cael apwyntiad meddyg teulu yn y 12 mis diwethaf am agweddau amrywiol ar eu gofal gan gynnwys: boddhad cyffredinol; p'un a oedd y meddyg teulu yn gwybod yr holl wybodaeth berthnasol; p'un a gafodd yr ymatebydd/gofalwr yr holl wybodaeth angenrheidiol; a ph'un a oedd yr ymatebydd o'r farn iddo gael ei drin ag urddas a pharch. Roedd 77% o bobl wedi gweld meddyg teulu ynghylch eu hiechyd eu hunain yn ystod y 12 mis blaenorol. O'r rhain, roedd 92% yn fodlon (68% yn fodlon iawn a 23% yn eithaf bodlon) (24% yn 2013-14) ar y gofal a gawsant.

Roedd 84% o'r bobl a welodd feddyg teulu yn cytuno bod gan y meddyg teulu/gweithiwr iechyd proffesiynol yr holl wybodaeth berthnasol am ei hanes meddygol. Roedd 89% yn cytuno eu bod hwy neu eu gofalwr wedi cael yr holl wybodaeth berthnasol angenrheidiol (90% yn 2013-14) a dywedodd 96% iddynt gael eu trin ag urddas a pharch.

Dangosodd ymchwil flaenorol a gynhaliwyd ar ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol 2012-13 fod pobl yn llai tebygol o fod yn fodlon ar ofal eu meddyg teulu os nad oeddent wedi cael yr holl wybodaeth angenrheidiol yn ystod eu hapwyntiad. Gyda dwy flynedd o ganlyniadau gallwn nawr ganolbwyntio ar foddhad â gofal y rhai a oedd yn cytuno neu'n anghytuno'n 'gryf' â'r datganiad hwn. Dangosir y gydberthynas hon yn Siart 1 isod[2].

[2] Nid yw cydberthynas yn golygu ei bod yn un achosol, gweler 'Dehongli'r canlyniadau'

**Siart 1: Canran a oedd yn fodlon ar ofal eu meddyg teulu yn ôl p'un a oeddent yn cytuno eu bod hwythau (neu ofalwr) wedi cael yr holl wybodaeth angenrheidiol**




- Roedd y rheini a oedd yn cytuno eu bod wedi cael yr holl wybodaeth angenrheidiol gan eu meddyg teulu yn llawer mwy tebygol o fod yn fodlon ar eu gofal meddyg teulu.
- Roedd 99% o'r rheini a oedd yn cytuno'n gryf eu bod wedi cael yr holl wybodaeth angenrheidiol yn fodlon ar eu gofal, o gymharu â 25% o'r rhai a oedd yn anghytuno'n gryf.


## Defnyddio gwasanaethau meddyg teulu

Un o ymrwymiadau allweddol Llywodraeth Cymru yw gwella mynediad i wasanaethau meddygon teulu ar gyfer pobl sy'n gweithio drwy gynnig apwyntiadau gyda'r nos ac ar y penwythnosau. Mae canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol ar ba mor hawdd yw cael apwyntiad meddyg teulu yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth ar gyfer y defnydd a wneir o feddygfeydd.

Roedd 36%[3] (38% yn 2013-14) o bobl yn ei chael hi'n anodd[4] gwneud apwyntiad cyfleus gyda meddyg teulu. Y prif reswm a roddwyd am hyn oedd bod yn rhaid aros yn hir am apwyntiad, a ddewiswyd gan 52% (54% yn 2013-14) o'r bobl a oedd yn ei chael hi'n anodd gwneud apwyntiad cyfleus gyda meddyg teulu. Mae'n bosibl bod pobl sy'n gweithio yn ei chael hi'n anos gwneud apwyntiad cyfleus gyda meddyg teulu na phobl nad ydynt yn gweithio oherwydd ymrwymiadau gwaith. Gyda dwy flynedd o ganlyniadau gallwn nawr edrych ar y rhesymau a roddwyd ynghylch pam ei bod hi'n anodd gwneud apwyntiad gyda meddyg teulu yn ôl statws cyflogaeth. Dangosir hyn yn siart 2 isod.

[3] 33% yn 2012-13 a 38% yn 2013-14. Roedd hyn yn wahaniaeth sylweddol rhwng y blynyddoedd; fodd bynnag, gan fod y rhesymau a roddwyd wedi aros yr un peth ar gyfer y ddwy flwyddyn, yn yr achos hwn rydym wedi cyfuno'r data er mwyn eu dadansoddi ymhellach.
[4] Caiff anodd ei ddiffinio fel y rhai a ddywedodd 'anodd iawn' ac 'eithafanodd'.

**Siart 2: Rhesymau dros nodi ei bod hi'n anodd gwneud apwyntiad cyfleus gyda meddyg teulu yn ôl statws cyflogaeth (a)(b)**




(a) Nid yw'r canrannau'n dod i 100 oherwydd gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb
(b) Mae'r canrannau'n cynrychioli'r sawl a gafodd apwyntiad gyda meddyg teulu yn y 12 mis diwethaf ac a oedd wedi ei chael hi'n anodd gwneud apwyntiad cyfleus

Dywedodd 39% o'r bobl a oedd yn gweithio nad oedd apwyntiadau ar gael ar adegau cyfleus (e.e. gyda'r nos ac ar benwythnosau) o gymharu â 23% o bobl ddi-waith.


## Boddhad â’r gofal a gafwyd mewn ysbyty a phrofiad y claf

Gofynnwyd i bobl a oedd wedi cael apwyntiad mewn ysbyty GIG dros y 12 mis diwethaf am agweddau amrywiol ar eu gofal gan gynnwys; boddhad cyffredinol, p'un a oedd gan y gweithiwr iechyd proffesiynol yr holl wybodaeth berthnasol, p'un a gafodd yr ymatebydd yr holl wybodaeth angenrheidiol a ph'un a oedd yr ymatebydd o'r farn ei fod wedi cael ei drin ag urddas a pharch.

Roedd 41% o bobl wedi cael apwyntiad mewn ysbyty GIG yn y 12 mis diwethaf. O'r rhain, roedd 90% (91% yn 2013-14) yn fodlon, roedd 70% yn fodlon iawn ac roedd 20% (21% yn 2013-14) yn eithaf bodlon ar y gofal a gawsant. Roedd 84% o bobl yn cytuno[5] bod gan y gweithiwr iechyd proffesiynolyr holl wybodaeth berthnasol am yr ymatebydd a'i hanes meddygol.

Dangosodd ymchwil flaenorol a gynhaliwyd ar ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol 2012-13 fod pobl yn llai tebygol o fod yn fodlon ar eu hapwyntiad ysbyty os nad oedd gan y gweithiwr iechyd proffesiynol yr holl wybodaeth berthnasol amdanynt. Gyda dwy flynedd o ganlyniadau, gallwn nawr ganolbwyntio ar foddhad â gofal ysbyty'r rhai a oedd yn cytuno neu'n anghytuno'n 'gryf' â'r datganiad hwn. Dengys Siart 3 y gydberthynas rhwng boddhad â'r gofal a gafwyd[6] mewn apwyntiad ysbyty a ph'un a oedd gan y gweithiwr iechyd proffesiynol yr holl wybodaeth berthnasol am y claf.

**Siart 3: Canran a oedd yn fodlon ar ofal ysbyty yn ôl p'un a oeddent yn cytuno bod y gweithiwr iechyd proffesiynol yn gwybod yr holl wybodaeth berthnasol (a)**




(a) Yn cynnwys pobl a gafodd apwyntiad ysbyty yn y 12 mis diwethaf.

- Roedd y bobl hynny a oedd o'r farn bod y gweithiwr iechyd proffesiynol yn gwybod yr holl wybodaeth berthnasol amdanynt yn llawer mwy tebygol o fod yn fodlon ar eu gofal mewn ysbyty GIG.
- Roedd 97% o'r bobl a oedd yn 'cytuno'n gryf' bod y gweithiwr iechyd proffesiynol yn gwybod yr holl wybodaeth berthnasol yn fodlon ar eu gofal yn yr ysbyty, o gymharu â 45% o'r rheini a oedd yn

[5] Diffinnir cytuno fel y rhai a ddywedodd eu bod yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno, a diffinnir anghytuno fel y rhai a ddywedodd eu bod yn anghytuno'n gryf neu'n tueddu i anghytuno


[6] Diffinnir bodlon fel y rhai a ddywedodd eu bod yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon

## Ymgysylltiad â gwasanaethau iechyd

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn gofyn cwestiynau am ymgysylltiad â gwasanaethau iechyd gan gynnwys; p'un a yw pobl o'r farn eu bod yn cael gwybod am berfformiad gwasanaethau iechyd lleol, p'un a fyddent yn hoffi cael mwy o wybodaeth am berfformiad gwasanaethau iechyd, p'un a allant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar wasanaethau iechyd lleol a ph'un a fyddent yn hoffi chwarae mwy o ran yn y broses gwneud penderfyniadau.

Dywedodd 24% (25% yn 2013-14) o bobl eu bod yn cael gwybod am berfformiad eu gwasanaethau iechyd lleol a dywedodd 57% (56% yn 2013-14) y byddent yn hoffi cael mwy o wybodaeth am berfformiad eu gwasanaethau iechyd lleol.[7] Gyda dwy flynedd o ganlyniadau gallwn nawr edrych am wahaniaethau rhwng byrddau iechyd. Dangosir hyn yn siart 4 isod.

**Siart 4: Cael gwybod am berfformiad gwasanaethau iechyd lleol yn ôl bwrdd iechyd lleol (a)**




(a) Mae byrddau iechyd yn cyfeirio at ble mae'r ymatebydd yn byw. Mae'n bosibl y gallai rhai apwyntiadau fod wedi cael eu cynnal mewn bwrdd iechyd gwahanol

Dangosir bariau cyfeiliornadau yn siart 4 uchod. Mae'r rhain yn nodi'r cyfyngau hyder 95%[8] o ran y canlyniadau (h.y. yr elfen o ansicrwydd). Fel canllaw bras, lle mae'r bariau cyfeiliornadau o ran yr amcangyfrifon yn gorgyffwrdd, gellir tybio nad yw'r amcangyfrifon yn wahanol iawn yn ystadegol. Mae'r cyfyngau hyder yn llawer llai lle defnyddir y data cyfunol nag ar gyfer canlyniadau lle defnyddir un flwyddyn o ddata, gan fod y sampl yn fwy; felly, mae'n haws nodi gwahaniaethau gwirioneddol yn y canlyniadau.


Dengys Siart 4 fod 21% o'r bobl a oedd yn byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi dweud eu bod yn cael gwybod am berfformiad gwasanaethau iechyd lleol, o gymharu â 32% o'r bobl a oedd yn byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Dywedodd 14% (13% yn 2013-14) o bobl eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwasanaethau iechyd lleol. Byddai 43% yn hoffi chwarae mwy o ran mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar wasanaethau iechyd lleol.

Mae Siart 5 yn edrych ar y gydberthynas rhwng oedran a ph'un a yw'r ymatebydd o'r farn y gall ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar ei wasanaethau iechyd lleol. Unwaith eto, mae'r bariau cyfeiliornadau ar y siart yn dangos lle ceir gwahaniaethau gwirioneddol yn y data. Gyda dim ond blwyddyn o ddata byddai'r bariau cyfeiliornadau hyn yn fwy.

[7] Yn cynnwys y rhai sy'n cytuno'n gryf ac yn tueddu i gytuno
[8] Gweler Amrywioldeb Samplu a Gwahaniaethau Mawr am ragor o wybodaeth am gyfyngau hyder.


**Siart 5: Canran sydd o'r farn eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar wasanaethau iechyd lleol yn ôl oedran**




Yn gyffredinol, mae pobl iau yn fwy tebygol na phobl hŷn o ddweud eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwasanaethau iechyd lleol. Dywedodd 17% o bobl (19% yn 2013-14) 16-24 oed eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau o gymharu ag 11% o bobl (10% yn 2013-14) 75 oed a throsodd. Nid oedd unrhyw wahaniaeth mawr rhwng y tri grŵp oedran arall.

Mae Siart 6 isod yn dangos y gydberthynas rhwng oedran a ph'un a fyddai'r ymatebydd yn hoffi chwarae mwy o ran mewn penderfyniadau.[9]

**Siart 6: Canran a fyddai'n hoffi chwarae mwy o ran mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar wasanaethau iechyd lleol yn ôl oedran**




Er mai pobl 75 oed a throsodd oedd y lleiaf tebygol o deimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau, y grŵp oedran hwn oedd y lleiaf tebygol hefyd o fod am chwarae mwy o ran mewn penderfyniadau o gymharu â'r holl grwpiau oedran eraill. Dengys Siart 6 y byddai 47% (48% yn 2013-14) o bobl 45-64 oed yn hoffi chwarae mwy o ran mewn penderfyniadau tra bod Siart 5 yn dangos mai dim ond 13% o bobl yn y grŵp oedran hwn a ddywedodd eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau.

[9] Yn cynnwys y rhai sy'n cytuno'n gryf ac yn tueddu i gytuno

## Gwasanaethau awdurdodau lleol


Ceir 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, sy'n gyfrifol am ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau yn eu hardal, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, addysg a thai. Mae awdurdodau lleol yn gweithio o fewn pwerau a sefydlir o dan Ddeddfau Seneddol a Mesurau a gaiff eu pasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn casglu tystiolaeth gan amryw o ffynonellau er mwyn monitro perfformiad pob awdurdod lleol (e.e. adroddiadau archwilio, arolygu a rheoleiddio, data perfformiad, a chynnydd a gofnodir gan awdurdodau lleol eu hunain tuag at eu hamcanion strategol).

Roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys nifer o gwestiynau, yn 2012-13 a 2013-14, am farn pobl ar wasanaethau awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r canlyniadau'n ategu ffynonellau eraill o dystiolaeth, gan alluogi Llywodraeth Cymru i wneud asesiadau mwy crwn am berfformiad pob awdurdod lleol a nodi'r meysydd i'w gwella yn y dyfodol. Bydd y canlyniadau hefyd o ddiddordeb i sefydliadau sector cyhoeddus eraill fel awdurdodau lleol eu hunain, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

Gofynnwyd i bobl a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â datganiadau amrywiol am eu hawdurdod lleol ac ansawdd eu hardal leol. Drwy ddefnyddio canlyniadau 2012-13 a 2013-14 ar wahân, gallem edrych ar y prif ganlyniadau yn ôl awdurdod lleol, ond drwy gyfuno'r ddwy flwyddyn, gallwn edrych ar y canlyniadau'n fanylach. Ar gyfer 2012-14 yn gyffredinol, roedd 57% yn cytuno[10] â'r datganiad: 'mae fy nghyngor yn darparu gwasanaethau o safon uchel'. Roedd hyn yn amrywio o 46% yn Nhorfaen i 65% yng Nghaerdydd a Chaerffili (roedd hyn yn amrywio o 46% yng Nghastell-nedd Port Talbot i 66% yng Nghaerffili lle defnyddiwyd data 2013-14 yn unig). Gofynnwyd y cwestiwn hwn hefyd yn Arolwg Cartrefi'r Alban, lle cytunodd 45% o bobl yr Alban fod eu cyngor lleol yn darparu gwasanaethau o safon uchel yn 2013 (roedd 44% yn cytuno â'r datganiad hwn yn 2012)[11].

Ar y cyfan, roedd y rheini a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol yn llai tebygol o gytuno â'r datganiad hwn na'r rhai a oedd yn rhentu neu'n berchen ar eu cartrefi. Dengys Siart 7 isod sut y gwnaeth pobl a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol ymateb i'r datganiad: 'mae fy nghyngor yn darparu gwasanaethau o safon uchel' ym mhob un o'r awdurdodau lleol.

**Siart 7: Cyfran y bobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol sy'n cytuno neu'n anghytuno bod eu cyngor yn darparu gwasanaethau o safon uchel, yn ôl awdurdod lleol**




Y bobl hynny a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol yn Wrecsam oedd y lleiaf tebygol o gytuno bod eu cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, (44%), tra'r rheini mewn tai cymdeithasol yn Sir Ddinbych oedd y mwyaf tebygol o gytuno (61%).

[10] Yn cynnwys y rhai sy'n 'cytuno'n gryf' ac yn 'tueddu i gytuno'

[11] Rhydd y canlyniadau gyd-destun defnyddiol, ond mae ambell wahaniaeth rhwng y ddau arolwg. Ceir mwy o wybodaeth am gymharu cwestiynau yma.

Nododd dadansoddiad pellach o ganlyniadau 2012-13 fod enw'r awdurdod lleol ond yn egluro ychydig bach o amrywiad mewn boddhad â gwasanaethau awdurdodau lleol. Gwelwyd bod amgylchiadau a nodweddion unigol pobl yn cael mwy o effaith ar y gwahaniaethau mewn boddhad.


Gofynnwyd i bobl a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am eu cyngor.

- Mae fy nghyngor yn dda am adael i bobl leol wybod pa mor dda y mae'n perfformio.
- Hoffwn i gael mwy o wybodaeth am sut y mae fy nghyngor yn perfformio.
- Rwy'n gallu dylanwadau ar benderfyniadau sy'n effeithio ar fy ardal leol.
- Fe hoffwn i chwarae mwy o ran yn y penderfyniadau y mae fy nghyngor yn eu gwneud sy'n effeithio ar fy ardal leol.

Roedd 41% o'r farn bod eu cyngor yn dda am adael i bobl leol wybod pa mor dda y mae'n perfformio, tra dywedodd 52% y byddent yn hoffi cael mwy o wybodaeth am sut y mae eu cyngor yn perfformio. Dywedodd 24% (25% yn 2013-14) eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol, tra hoffai 48% (49% yn 2013-14) chwarae mwy o ran yn y penderfyniadau y mae eu cyngor yn eu gwneud sy'n effeithio ar eu hardal leol.

Gall y pedwar datganiad hyn gael eu grwpio'n ddau, sef un am dderbyn gwybodaeth, a'r llall am chwarae rhan mewn penderfyniadau. Mae'r ymatebion i'r datganiadau hyn wedi cael eu grwpio yn eu parau ac fe'u cyflwynir yn y ddwy siart isod.

### Siart 8: Pobl a oedd yn cytuno â datganiadau am eu cyngor, yn ôl awdurdod lleol (a)




(a) Mae'r ddwy siart wedi cael eu trefnu yn ôl faint o wahaniaeth sydd rhwng y ddau ddatganiad yn y pâr.

Dengys Siart 8 (chwith) mai Caerffili oedd â'r lleiaf o wahaniaeth rhwng cyfran y bobl a ddywedodd fod eu cyngor yn dda am adael i bobl wybod pa mor dda y mae'n perfformio (50%) a'r gyfran a hoffai gael mwy o wybodaeth am ba mor dda y mae'n perfformio (44%) - gwahaniaeth o 6 phwynt canran.

Mae hyn o gymharu â Chastell-nedd Port Talbot, lle mai dim ond 30% a gredai fod eu cyngor yn dda am adael iddynt wybod pa mor dda y mae'n perfformio, ac roedd 64% am gael mwy o wybodaeth am sut y mae eu cyngor yn perfformio - gwahaniaeth o 34 pwynt canran i'r cyfeiriad arall.

Dengys Siart 8 (chwith) mai Caerffili hefyd oedd â'r lleiaf o wahaniaeth rhwng cyfran y bobl a ddywedodd y byddent yn hoffi chwarae mwy o ran yn y penderfyniadau y mae'r cyngor yn eu gwneud am eu hardal leol (41%) a'r gyfran a gredai y gallai ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar ei hardal leol (25%), o gymharu â'r awdurdodau eraill - gwahaniaeth o 17 pwynt canran. Yn Sir Benfro, dywedodd 48% y byddent yn hoffi chwarae mwy o ran yn y penderfyniadau y mae'r cyngor yn eu gwneud am eu hardal leol a dim ond 17% a gredai y gallent ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol - gwahaniaeth o 31 pwynt canran

Fel gyda boddhad cyffredinol â gwasanaethau, mae ymchwil flaenorol wedi dangos bod y rhan fwyaf o'r amrywiad o ran p'un a yw awdurdodau lleol yn dda am gyfleu eu perfformiad yn deillio o wahaniaethau rhwng unigolion, ac nid ym mha awdurdod lleol y maent yn byw. Nododd yr un ymchwil hefyd fod canfyddiadau pobl ynghylch pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyfleu ei berfformiad yn ffactor allweddol o ran boddhad cyffredinol â gwasanaethau awdurdodau lleol.

## Ansawdd yr ardal leol

Yn 2012-13 a 2013-14 roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cyfres o gwestiynau ar ansawdd yr ardal leol. Cafodd y rhain eu cynnwys yn yr arolwg er mwyn helpu i ymchwilio i ddimensiwn amgylcheddol lles. Gofynnwyd i bobl a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau cadarnhaol canlynol am eu hardal leol.


- Mae'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda
- Does dim sbwriel yno
- Does dim graffiti a fandaliaeth yno
- Mae'n ddiogel i blant chwarae tu allan
- Does dim traffig trwm yno

Roedd 69% (70% yn 2013-14) yn cytuno (20% yn cytuno'n gryf) â'r datganiad 'mae'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda', roedd 62% yn cytuno (19% yn cytuno'n gryf) nad oes sbwriel yn eu hardal leol, roedd 76% (77% yn 2013-14) yn cytuno (32% yn gryf) nad oes graffiti na fandaliaeth yno, roedd 63% (64% yn 2013-14) yn cytuno (23% yn gryf) ei bod 'yn ddiogel i blant chwarae tu allan' ac roedd 50% (48% yn 2013-14) yn cytuno (17% yn gryf) 'does dim traffig trwm yno'.

Roedd y wybodaeth hon ar gael ar lefel awdurdod lleol gan ddefnyddio canlyniadau un flwyddyn yn unig; gweler y tablau ar gyfer y canlyniadau hyn ar StatsCymru. Fodd bynnag, gyda dwy flynedd o ganlyniadau, gallwn nawr edrych ar y dadansoddiad yn fanylach, er enghraifft gallwn ganolbwyntio ar y rhai a oedd â barn gref iawn am eu hardal, hynny yw, y rhai a oedd yn cytuno neu'n anghytuno'n 'gryf' â'r datganiadau hyn.

Dengys Siart 9 isod gyfran y bobl a oedd yn cytuno'n gryf neu'n anghytuno'n gryf fod eu hardal leol yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda, yn ôl awdurdod lleol.


**Siart 9: Cyfran y bobl sy'n cytuno'n gryf neu'n anghytuno'n gryf fod eu hardal leol yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda, yn ôl awdurdod lleol**




Roedd 32% o bobl a oedd yn byw ar Ynys Môn yn cytuno'n gryf fod eu hardal leol yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda, o gymharu â 12% o bobl a oedd yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Dengys Siart 10 isod gyfran y bobl a oedd yn cytuno'n gryf neu'n anghytuno'n gryf nad oes sbwriel yn eu hardal leol, yn ôl awdurdod lleol.


**Siart 10: Cyfran y bobl sy'n cytuno'n gryf neu'n anghytuno'n gryf nad oes sbwriel yn eu hardal leol, yn ôl awdurdod lleol**




Roedd 31% o bobl a oedd yn byw ar Ynys Môn yn cytuno'n gryf nad oedd sbwriel yn eu hardal leol, o gymharu â 10% o bobl a oedd yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Fel y gellid ei ddisgwyl, mae awdurdodau lleol â chyfran uwch o bobl sy'n dweud bod yr ardal yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda hefyd yn debygol o fod â chyfran uchel o bobl sy'n dweud nad oes sbwriel yn yr ardal.  Dangosir hyn yn siart 11.

**Siart 11: Cyfran y bobl sy'n cytuno'n gryf bod eu hardal leol yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda, yn ôl awdurdod lleol**



## Addysg

Yn 2012-13 a 2013-14, roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cyfres o gwestiynau am foddhad rhieni ag ysgolion a'u profiad o ddelio ag ysgolion ac athrawon. Gofynnwyd i rieni hefyd nodi pa mor aml y maent yn treulio amser gyda'u plant ar weithgareddau amrywiol.

Gan mai dim ond rhieni a holwyd am hyn, roedd yr ymatebion ar gyfer y cwestiynau hyn yn llawer llai nag ar gyfer rhannau eraill o'r arolwg. Drwy ddefnyddio canlyniadau 2012-13 a 2013-14 ar wahân, dim ond edrych ar y prif ganlyniadau ar gyfer y maes hwn y gallem ei wneud. Fodd bynnag, drwy ddefnyddio'r canlyniadau cyfunol, dyblir ein sampl sy'n ein galluogi i gynnal mwy o draws-ddadansoddiadau o'r data.

Defnyddir canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol ynghyd â ffynonellau data eraill (adroddiadau arolygu, canlyniadau arholiadau, ac ati) er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i gynnal asesiad ehangach o ansawdd gwasanaethau addysg. Bydd y dystiolaeth hon yn cefnogi'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun Gwella Ysgolion, sy'n nodi pa mor dda y caiff blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg eu cyflawni. Bydd hefyd yn ategu gwerthusiadau o raglenni a pholisïau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys astudiaethau o effeithiolrwydd diwygiadau gwella ysgolion.


### Boddhad ag ysgolion cynradd ac uwchradd

Yn 2012-13 a 2013-14, gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol i rieni am eu boddhad ag ysgolion cynradd ac uwchradd eu plant a ariennir gan yr awdurdod lleol[12].

Roedd 92% o rieni yn fodlon[13] ar yr ysgol gynradd a fynychwyd gan eu plentyn, ac roedd 84% (85% yn 2013-14) yn fodlon ar yr ysgol uwchradd a fynychwyd gan eu plentyn. Yn gyffredinol, mae boddhad ag ysgolion cynradd ac uwchradd yn uchel, a phrin yw'r gwahaniaeth wrth edrych ar foddhad ag ysgolion yn ôl nodweddion eraill.

Fodd bynnag, mae boddhad ag ysgolion uwchradd yn amrywio yn ôl ardal consortia[14]. Cyrff a gaiff eu sefydlu gan awdurdodau lleol er mwyn darparu gwasanaethau gwella ysgolion yn rhanbarthol yw consortia. Mae consortia yn rhan ganolog o'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol ac mae ganddynt gyfrifoldeb arweiniol o ran gwella ysgolion. Dengys Siart 12 fod rhieni sy'n byw yng Nghanol De Cymru yn llai bodlon (78%) na'r rheini yn y De-orllewin a'r Canolbarth (88%).

**Siart 12: Boddhad ag ysgolion uwchradd, yn ôl ardal consortia**




Ymchwilir i'r gydberthynas rhwng boddhad rhieni ag ysgolion a chanlyniadau disgyblion ymhellach mewn adroddiad gan Oftsed a gyhoeddwyd yn 2006 ar foddhad ag ysgolion yn Lloegr.

[12] Gofynnwyd i ymatebwyr ystyried eu profiadau dros y 12 mis diwethaf. Caiff gwarcheidwaid eu cynnwys o dan y term 'rhiant'.
[13] Diffiniwyd bodlon fel "eithaf" bodlon neu fodlon "iawn".
[14] Ceir rhestr o'r awdurdodau lleol ym mhob consortia yn 'Termau a Diffiniadau'.


## Profiad o ddelio ag ysgolion

Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol nifer o gwestiynau i rieni am agweddau penodol ar ddelio ag ysgol gynradd neu ysgol uwchradd eu plentyn. Gofynnwyd iddynt nodi i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno[15] â datganiadau ynghylch cwrdd ag athrawon, bod yn rhan o benderfyniadau a chael gwybod am gynnydd y plentyn. Gofynnwyd iddynt hefyd a oeddent o'r farn eu bod yn cael gwybod am berfformiad yr ysgol.

Ar gyfer ysgolion cynradd:
- Roedd 96% o rieni â phlant yn cytuno eu bod wedi gallu cwrdd ag athro pan oeddent am wneud hynny o fewn cyfnod rhesymol
- Roedd 87% yn cytuno eu bod yn cael cymryd cymaint o ran ag yr oeddent yn ei ddymuno mewn penderfyniadau am addysg eu plentyn
- Roedd 93% (94% yn 2013-14) yn cytuno eu bod yn cael cymaint o wybodaeth ag yr oeddent yn ei ddymuno am gynnydd eu plentyn
- Roedd 86% (85% yn 2013-14) o'r farn eu bod yn cael gwybod am berfformiad yr ysgol

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn gyfrifol am eu cyllideb addysg eu hunain. Gallant benderfynu faint o arian y gellir ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion a chyflawni blaenoriaethau lleol. O ganlyniad, gallai profiadau rhieni o ddelio ag ysgolion amrywio rhwng awdurdodau lleol. Gydag un flwyddyn o ddata, ni fyddai'r sampl wedi bod yn ddigon mawr i ddadansoddi'r cwestiynau hyn yn ôl awdurdod lleol, ond gyda dwy flynedd o ganlyniadau gallwn nawr edrych ar y canlyniadau hyn. Dengys Siart 13 isod fod peth amrywiad rhwng awdurdodau lleol wrth ystyried a yw rhieni o'r farn eu bod yn cael gwybod am berfformiad ysgol gynradd eu plentyn.[16]

**Siart 13: Mae rhieni o'r farn eu bod yn cael gwybod am berfformiad ysgol gynradd eu plentyn, yn ôl awdurdod lleol**





Sir Benfro sydd â'r gyfran uchaf o rieni sydd o'r farn eu bod yn cael gwybod am berfformiad ysgol eu plentyn (92%), sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (86%). Caerdydd sydd â'r gyfran isaf o rieni sydd o'r farn eu bod yn cael gwybod am berfformiad ysgol eu plentyn (80%).
Ar gyfer ysgolion uwchradd:

---
[15] Diffinnir cytuno fel y rhai a ddywedodd eu bod yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno, a diffinnir anghytuno fel y rhai a ddywedodd eu bod yn anghytuno'n gryf neu'n tueddu i anghytuno.
[16] Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar yr awdurdod lleol preswylio ac nid o reidrwydd yr awdurdod lleol y mae'r plentyn yn mynychu'r ysgol ynddo (ni chesglir y wybodaeth hon fel rhan o'r Arolwg Cenedlaethol).

- Roedd 86% o rieni yn cytuno eu bod wedi gallu cwrdd ag athro pan oeddent am wneud hynny o fewn cyfnod rhesymol
- Roedd 81% (83% yn 2013-14) yn cytuno eu bod yn cael cymryd cymaint o ran ag yr oeddent yn ei ddymuno mewn penderfyniadau am addysg eu plentyn
- Roedd 86% yn cytuno eu bod yn cael cymaint o wybodaeth ag yr oeddent yn ei ddymuno am gynnydd eu plentyn
- Roedd 82% o'r farn eu bod yn cael gwybod am berfformiad yr ysgol

Gyda dwy flynedd o ddata gallwn nawr edrych ar y canlyniadau hyn yn ôl awdurdod lleol. Dengys Siart 14, wrth gymharu canran y rhieni sydd o'r farn eu bod yn gallu cwrdd ag athrawon pan eu bod am wneud hynny o fewn cyfnod rhesymol, ei bod yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Ymhlith rhieni yn Rhondda Cynon Taf y nodwyd y ganran isaf a oedd yn cytuno â'r datganiad hwn (78%), sy'n wahanol i rieni ym Mhowys, lle'r oedd 95% yn cytuno â'r datganiad hwn.

**Siart 14: Cytundeb rhieni eu bod yn gallu cwrdd ag athrawon pan eu bod am wneud hynny o fewn cyfnod rhesymol o amser, yn ôl awdurdod lleol**




## Ymgysylltiad rhieni ag addysg eu plant


Mae ymchwil wedi dangos yn gyson y gall rhieni cefnogol ac amgylchedd dysgu da yn y cartref helpu i wella datblygiad gwybyddol plentyn a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w gyflawniad yn yr ysgol. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i gael gwybod faint o amser mae rhieni'n ei dreulio yn gwneud gweithgareddau amrywiol gyda phlant o bob oed. Yn yr Arolwg Cenedlaethol, gofynnwyd cyfres o gwestiynau i rieni plant rhwng 3 a 7 ac 8 a 17 oed ynghylch pa mor aml roeddent yn gwneud gweithgareddau penodol gyda'u plant.

Holwyd rhieni plant rhwng 3 a 7 oed am ba mor aml maent yn 'edrych ar lyfrau neu'n darllen storïau i'w plant', yn eu helpu i 'adnabod neu ddysgu am lythrennau, rhifau neu siapiau', helpu eu plant i 'ddarllen neu ysgrifennu'; a 'helpu gyda gwaith ysgol'.

Nodwyd bod 57% (58% yn 2013-14) o rieni plant iau (3-7 oed) yn edrych ar lyfrau neu'n darllen storïau i'w plant bob dydd; roedd 50% (49% yn 2013-14) o rieni yn helpu eu plentyn i adnabod neu ddysgu am lythrennau, rhifau neu siapiau bob dydd; roedd 43% o rieni yn helpu eu plentyn i ddarllen neu ysgrifennu bob dydd; ac roedd 29% (26% yn 2013-14) yn helpu eu plentyn gyda gwaith ysgol bob dydd. Gyda dwy flynedd o ddata gallwn nawr edrych ar y datganiadau hyn yn ôl rhyw.

Dengys Siart 15 fod tadau yn llai tebygol na mamau o edrych ar lyfrau neu ddarllen storïau, helpu i ddarllen neu ysgrifennu a helpu gyda gwaith ysgol bob dydd. Gwelir y gwahaniaeth mwyaf wrth ystyried pa mor aml y maent yn edrych ar lyfrau neu'n darllen storïau bob dydd, gyda 62% o famau yn gwneud hyn o gymharu â dim ond 51% o dadau.

**Siart 15: Y rhan a chwaraeir gan rieni mewn gweithgareddau gyda'u plant (3-7 oed) bob dydd, yn ôl rhyw**




Mae'n bwysig nodi, ar gyfer dysgu ar lefel sylfaenol ac uwch, mai dim ond y rhiant a ddewiswyd ar hap i'w gyfweld y gofynnodd yr arolwg iddo faint o amser yr oedd yn ei dreulio'n gwneud gweithgareddau amrywiol gyda'i blentyn. Ni chasglwyd gwybodaeth am yr amser yr oedd y rhiant arall nac oedolyn arall yn ei dreulio'n gwneud yr un gweithgareddau gyda'i blentyn.

Ar gyfer plant rhwng 8 a 17 oed, ceir tystiolaeth bod y rhan y mae'r rhieni'n ei chwarae yn parhau i gael effaith sylweddol ar eu cyflawniad yn ystod eu blaenlencyndod a hyd yn oed pan fyddant yn oedolion. Nododd ymchwil a ddefnyddiodd ddata o'r Astudiaeth Genedlaethol o Ddatblygiad Plant i archwilio effaith y rhan a chwaraeir gan rieni ar gyflawniad yn 16 oed fod cysylltiad rhwng rhieni sydd â diddordeb mawr iawn a chanlyniadau gwell mewn arholiadau, hyd yn oed ar ôl ystyried dylanwad ffactorau cefndirol fel dosbarth cymdeithasol a maint y teulu.

Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol gyfres o gwestiynau i rieni plant rhwng 8 a 17 oed am ba mor aml roeddent: 'yn trafod y newyddion neu raglenni dogfen gyda'u plant'; 'yn helpu eu plant i ddarllen neu gyfeirio at lyfrau, cylchgronau neu bapurau newydd'; ac 'yn helpu eu plant gyda gwaith ysgol'.

Gwelwyd bod rhieni yn fwy tebygol o gynorthwyo eu plant gyda gwaith ysgol bob dydd (27%) (25% yn 2013-14) na thrafod y newyddion neu raglen ddogfen (20%) (19% yn 2013-14) neu helpu i ddarllen neu gyfeirio at lyfrau, cylchgronau neu bapurau newydd (19%) bob dydd.

Nododd dadansoddiad pellach o ganlyniadau arolwg 2012-13 fod rhieni plant ysgol gynradd yn ymwneud yn fwy ag addysg eu plant na rhieni plant ysgol uwchradd. Awgrymodd yr ymchwil y gallai rhieni deimlo'n fwy hyderus i helpu plant iau i ddysgu, ond wrth i blant fynd yn hŷn, y gall rhieni ystyried nad oes ganddynt y sgiliau na'r wybodaeth angenrheidiol.

Ceir rhagor o ymchwil ar ddysgu sylfaenol yn Astudiaeth Carfan y Mileniwm, a cheir dysgu ar lefel sylfaenol ac uwch ym Mhanel Unigolion 2005 Llywodraeth Cymru.

## Lles


Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu nod Llywodraeth Cymru i wella lles hirdymor pobl Cymru. Mae lles unigol yn cynnwys teimlo hapusrwydd ac agweddau eraill ar les goddrychol, fel teimlo bod yr hyn a wna pobl yn werth chweil, neu fod yn fodlon ar eich cydberthnasau personol. Mae hefyd yn cynnwys agweddau ar les a all gael eu mesur mewn ffyrdd mwy gwrthrychol, fel boddhad â sefyllfa ariannol pobl neu statws cyflogaeth.

Yn 2012-13 gofynnwyd pedwar cwestiwn ar les goddrychol cyffredinol ac wyth cwestiwn ar fodlonrwydd â 'pharthau bywyd' amrywiol yn yr Arolwg Cenedlaethol. Datblygwyd y cwestiynau hyn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) fel ffordd o fesur lles. Yn 2013-14, defnyddiodd yr Arolwg Cenedlaethol gwestiynau o fodiwl arolwg ar les Ystadegau'r Undeb Ewropeaidd ar Incwm ac Amodau Byw (EU-SILC) yn lle'r cwestiynau hyn. Ym mis Medi 2014, cyhoeddodd SYG adroddiad ar Les Personol yn y DU.

Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar y cwestiynau ar les a oedd yn yr Arolwg Cenedlaethol ac yn gyffredin i'r ddwy flwyddyn. Noder nad yw'r canlyniadau a nodir isod o reidrwydd yn awgrymu bod y ffactorau amrywiol a grybwyllir (oedran, statws cyflogaeth, ac ati) yn effeithio'n uniongyrchol ar lefelau lles. Mae'n debygol y bydd y gydberthynas yn fwy cymhleth.

Gofynnodd y cwestiynau ar les yn yr arolwg i bobl raddio agweddau amrywiol ar eu bywydau ar raddfa o 0 (ddim yn fodlon o gwbl) i 10 (yn hollol fodlon).  Drwy ddefnyddio canlyniadau cyfunol dwy flynedd, gellir cynnal dadansoddiad manylach mewn meysydd lle nad oedd canlyniadau yn ddigon cadarn ar sail un flwyddyn o ganlyniadau.

**Siart 16:  Boddhad ag agweddau ar fywyd**




(a) Y ffigurau boddhad cyfartalog yn 2013-14 oedd: Cydberthnasau personol 8.6; Teimlo bod pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil 8.0; Boddhad â bywyd 7.7; Boddhad â swydd bresennol 7.5; Faint o amser sydd i wneud pethau rydych yn mwynhau eu gwneud 7.1; Sefyllfa ariannol y cartref 6.9.

O blith y gwahanol agweddau hyn ar eu bywydau, roedd pobl fwyaf bodlon ar eu cydberthnasau personol, lle cafwyd sgôr gyfartalog o 8.7 (8.6 yn 2013-14) allan o 10. Ar sefyllfa ariannol eu cartref roedd pobl leiaf bodlon, lle cafwyd sgôr gyfartalog o 6.9. Gyda dwy flynedd o ddata, roedd yn bosibl edrych ar yr agweddau hyn ar fywyd drwy eu dadansoddi mewn ffyrdd amrywiol, na fyddent wedi bod yn gadarn o bosibl pe defnyddiwyd un flwyddyn o ddata yn unig.


Dangosodd pobl yng Nghymru foddhad cyfartalog â'u sefyllfa waith/swydd bresennol o 7.4 allan o 10. Newidiodd geiriad y cwestiwn hwn rhwng 2012-13 a 2013-14 o ofyn pa mor fodlon oedd pobl â'u sefyllfa waith i ba mor fodlon oeddent â'u swydd bresennol. Er bod modd cymharu ystyr y cwestiynau roedd gwahaniaeth bach ond ystadegol bwysig yn y lefel boddhad gyfartalog a nodwyd yn 2012-13 o

gymharu â 2013-14. Am y rheswm hwn, penderfynwyd peidio â chynnal dadansoddiad pellach o ganlyniadau'r cwestiwn hwn yn y canlyniadau cyfunol.

## Cydberthnasau personol

Fel y gwelwyd yn Siart 17, roedd dynion a menywod yn y grwpiau oedran 65-74 a 75 a throsodd yn fwy tebygol o fod yn fodlon ar eu cydberthnasau personol na'r cyfartaledd cenedlaethol sef 8.7 allan o 10. Roedd merched 16-24 oed yn llai tebygol o fod yn fodlon ar eu cydberthnasau personol (8.5) na chyfartaledd Cymru (8.7).


**Siart 17: Boddhad â chydberthnasau personol yn ôl grŵp oedran**




## Mae pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil

Dengys Siart 18 fod pobl a oedd yn byw mewn ardaloedd trefol ac mewn tai cymdeithasol neu dai rhentu preifat yn llai tebygol o feddwl bod yr hyn roeddent yn ei wneud yn eu bywydau yn werth chweil o gymharu â chyfartaledd Cymru. Yn ddiddorol, roedd gan y bobl sy'n byw yn yr un mathau o dai ond mewn ardaloedd gwledig lefelau boddhad tebyg iawn i gyfartaledd Cymru yn gyffredinol (8.0). Ar y cyfan, roedd y rheini a oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig yn fwy bodlon bod y pethau roeddent yn eu gwneud mewn bywyd yn werth chweil na'r rhai mewn ardaloedd trefol; roedd gan berchennog-ddeiliaid gwledig sgôr uwch na'r cyfartaledd (8.3 allan o 10).


**Siart 18: Teimlo bod y pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil, yn ôl y math o ddeiliadaeth a rhaniad trefol/gwledig**



## Boddhad â bywyd

Drwy gyfuno canlyniadau Arolwg Cenedlaethol 2012-13 a 2013-14 ar gyfer y cwestiwn "Ar y cyfan, pa mor fodlon ydych chi â'ch bywyd y dyddiau hyn" mae modd llunio canfyddiadau manwl gywir ar lefel awdurdod lleol. Dengys Siart 19, er yn fach, fod peth amrywiad mewn lefelau boddhad â bywyd wrth eu hystyried yn ôl ble mae pobl yn byw.

**Siart 19: Boddhad â bywyd y dyddiau hyn, yn ôl awdurdod lleol**





Pobl ym Merthyr Tudful (7.5) a Chaerdydd (7.6) oedd â'r lefelau boddhad isaf ar gyfer bywyd y dyddiau hyn tra nododd y rheini a oedd yn byw ar Ynys Môn (7.9) ac yng Ngwynedd (8.0) lefelau boddhad a oedd uwchlaw cyfartaledd Cymru sef 7.7. allan o 10.

Gofynnir yr un cwestiwn ar foddhad â bywyd yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS). Roedd yr Arolwg Ansawdd Bywyd Ewropeaidd (2012) yn cynnwys rhai cwestiynau tebyg ar les goddrychol.

## Amser i wneud y pethau y mae pobl yn mwynhau eu gwneud

**Siart 20: Boddhad â'r amser sydd ar gael i wneud y pethau y mae pobl yn mwynhau eu gwneud, yn ôl grŵp oedran a rhaniad gwledig/trefol**




Dengys Siart 20 amrywiad eang mewn lefelau boddhad â'r amser sydd ar gael i wneud y pethau y mae pobl yn mwynhau eu gwneud. Fel y gellir ei ddisgwyl, ymhlith pobl sydd dros oedran ymddeol y wladwriaeth y gwelwyd y lefelau boddhad uchel ar gyfer yr amser sydd ganddynt i wneud y pethau maent yn mwynhau eu gwneud. Roedd pobl rhwng 25 a 44 oed a rhwng 45 a 64 oed islaw cyfartaledd Cymru sef 7.0 allan o 10. Ar y cyfan, roedd gan bobl yng Nghymru a oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig lefelau boddhad ychydig yn uwch ar gyfer faint o amser oedd ganddynt i wneud y pethau roeddent yn mwynhau eu gwneud na'r rhai a oedd yn byw mewn ardaloedd trefol.

## Sefyllfa ariannol bersonol/y cartref

Lefel boddhad gyfartalog gyffredinol Cymru ar gyfer sefyllfa ariannol bersonol/y cartref pobl yw 6.9 allan o 10. Mae Siart 21 yn edrych ar is-set o'r boblogaeth; y bobl hynny sy'n 'gyflogedig' neu'n 'ddi-waith' ond heb gynnwys y rhai sy'n 'anweithgar yn economaidd' am resymau fel oedran, iechyd a chyfrifoldebau gofalu ac ati. Yna, cymharwyd y statws cyflogaeth â'r lefel uchaf o gymhwyster[17] a enillwyd gan yr ymatebydd.

Ym mhob categori o gymwysterau, roedd gan bobl ddiwaith lefelau boddhad cyfartalog sylweddol is ar gyfer eu sefyllfa ariannol na'r rhai a oedd mewn gwaith. Pobl gyflogedig â Cymwysterau Cenedlaethol lefel 4 ac uwch (sy'n cyfateb i addysg uwch) oedd y mwyaf bodlon. Fodd bynnag, prin oedd yr amrywiad rhwng lefelau boddhad cyfartalog ar gyfer pobl gyflogedig sy'n awgrymu nad oedd cymwysterau ar eu pen eu hunain yn cael fawr o ddylanwad ar foddhad unigolyn â'i sefyllfa ariannol bersonol neu sefyllfa ariannol y cartref.

**Siart 21: Boddhad â sefyllfa ariannol y cartref/personol yn ôl statws cyflogaeth a'r lefel uchaf o gymhwyster a enillwyd**




(a) Mae Siart 21 yn cwmpasu is-set o'r boblogaeth ac nid yw'n cynnwys y rhai a oedd yn economaidd anweithgar

Fel gyda phob cymhariaeth yn y bwletin hwn, mae'r cydberthnasau rhwng ffactorau a'u heffaith ar lefelau boddhad yn debygol o fod yn fwy cymhleth na'r rhai a drafodwyd. Cafodd peth ymchwil bellach i ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol 2012-13 ei chomisiynu a'i chyhoeddi ym mis Mai 2014; darparodd hyn well dadansoddiad manwl a nododd gysylltiadau rhwng ffactorau a oedd yn parhau ar ôl rheoli ar gyfer pob ffactor arall yn y set ddata.

[17] Cymwysterau a ddosbarthwyd ar raddfa'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol, lle Lefel 8 yw'r uchaf a lefel Mynediad yw'r isaf.

## Gwahaniaethu

Cafodd Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2012, gan nodi sut mae'r Llywodraeth yn diwallu anghenion Deddf Cydraddoldeb 2010 a dyletswyddau cydraddoldeb penodol Cymru. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyflwyno'r amcanion ar gyfer cydraddoldeb gydag ymyriadau allweddol, mesurau llwyddiant a dangosyddion olrhain. Mae'r dyletswyddau cydraddoldeb hyn wedi'u dylunio i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus a chyflogaeth yn deg, yn hygyrch ac yn ymateb i anghenion pobl a bod cymunedau yn gynhwysol. Mae'r amcanion hyn yn ymwneud â'r holl nodweddion a warchodir, fel rhyw, hil a ffydd.


Yn Arolwg Cenedlaethol 2012-13 a 2013-14, gofynnwyd i ymatebwyr nodi a oeddent, yn ystod y 12 mis a aeth heibio, wedi profi unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu gam-drin am unrhyw un o'r rhesymau hyn, a rhoddwyd 14 o atebion posibl i ddewis o'u plith. Gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb os oedd yn gymwys.

Dywedodd 92% o bobl nad oeddent wedi profi unrhyw wahaniaethu. Nododd llai nag 1% liw, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol fel y rheswm dros brofi gwahaniaethu, aflonyddu neu gam-drin. Nododd 1% acen, ethnigrwydd, oedran, iaith, cenedligrwydd, anabledd neu broblem iechyd arall a chred grefyddol fel y rheswm dros brofi gwahaniaethu, aflonyddu neu gam-drin. Nododd 2% ble roeddent yn byw ac 'arall' fel y rheswm dros brofi gwahaniaethu, aflonyddu neu gam-drin.

Gan fod 14 o resymau a allai gael eu rhoi dros wahaniaethu, ac mai dim ond 8% o bobl a oedd wedi profi unrhyw fath o wahaniaethu, mae'r canrannau a roddodd resymau dros y gwahaniaethu yn fach iawn. Hyd yn oed wrth gyfuno dwy flynedd o ddata gyda'i gilydd, nid oes modd cynnal dadansoddiad manylach o'r mathau o bobl sy'n profi mathau penodol o wahaniaethu, gan fod y niferoedd yn rhy fach.

Ymatebodd pobl nad oeddent wedi profi unrhyw fath o wahaniaethu drwy nodi nad oeddent wedi profi hyn. Dengys Siart 22 y gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol yn y canrannau nad oeddent wedi profi unrhyw wahaniaethu.


**Siart 22: Dim profiad o wahaniaethu, yn ôl awdurdod lleol**




Dywedodd 88% o bobl yng Nghaerdydd nad oeddent wedi profi unrhyw wahaniaethu, aflonyddu na cham-drin, sy'n is na Sir Gaerfyrddin (94%). Mae'r ddau ffigur hyn yn wahanol i gyfartaledd Cymru (92%).

Unwaith eto, drwy ond ystyried y rhai nad oeddent wedi profi unrhyw wahaniaethu, mae modd edrych ar unrhyw wahaniaethau rhwng grwpiau oedran. Mae Siart 23 isod yn dangos hyn.

**Siart 23: Dim profiad o wahaniaethu, yn ôl oedran**




Mae pobl 65 oed a throsodd yn llai tebygol o fod wedi profi gwahaniaethu, aflonyddu neu gam-drin, na phobl yn y grwpiau oedran iau. Nid yw 88% o bobl 16-24 oed wedi profi gwahaniaethu, aflonyddu na cham-drin, sy'n golygu bod 12% o bobl yn y grŵp hwn wedi profi hynny. Mae'r gyfran hon yn uwch na'r 5% o bobl 65-74 oed a'r 2% o bobl 75 oed a throsodd sydd wedi profi gwahaniaethu, aflonyddu neu gam-drin.

## Teimlo'n ddiogel


Bydd Cydlyniant Cymunedol Cynllun Cyflawni Cenedlaethol 2014-16Llywodraeth Cymru yn cefnogi Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) er mwyn sicrhau cymunedau cydlynus lle mae gan unigolyn ymdeimlad cryf o berthyn, teimlo'n ddiogel a'i fod yn gyfforddus yn cymysgu ac yn rhyngweithio ag eraill. Mae'r Rhaglen Lywodraethu hefyd yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i wneud cymunedau'n fwy diogel drwy drechu ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau (yn cynnwys ofn troseddau), camddefnyddio sylweddau, achosion ac effaith tanau a chydgysylltu effeithiol mewn achosion brys. Tynnodd cyhoeddiad y Swyddfa Gartref, sef Crime Survey for England and Wales yn y flwyddyn a ddaeth i ben mis Mehefin 2013 sylw at fwlch rhwng canfyddiadau o droseddau, a throseddau y rhoddir gwybod amdanynt. Mae data gweinyddol ar gael ar droseddau y rhoddir gwybod amdanynt, ond dim ond gan ddefnyddio canlyniadau o arolygon y gellir monitro canfyddiadau o droseddau.

Gofynnwyd y cwestiwn ynghylch pa mor ddiogel neu anniogel y byddai rhywun yn teimlo gartref ar ôl iddi dywyllu yn Arolwg Cenedlaethol 2012-13 a 2013-14, lle'r ymatebion posibl oedd Diogel iawn, Eithaf diogel, Eithaf anniogel ac Anniogel iawn.

Dim ond 4% o bobl a oedd yn teimlo'n anniogel[18] (1% yn anniogel iawn a 3% yn eithaf anniogel) gartref ar ôl iddi dywyllu. Mae hyn yn golygu bod 96% o bobl yn teimlo'n ddiogel, lle'r oedd 67% yn teimlo'n ddiogel iawn a 29% yn teimlo'n eithaf diogel gartref ar ôl iddi dywyllu. Gyda dwy flynedd o ganlyniadau mae nawr yn bosibl edrych ar y gwahaniaethau mewn canfyddiadau o ddiogelwch gartref yn ôl awdurdod lleol.

Dengys Siart 24 fod canran y bobl a deimlai'n ddiogel gartref ar ôl iddi dywyllu yn amrywio ar draws awdurdodau lleol. Caerdydd (92%) a Chasnewydd (93%) sydd â'r gyfran isaf o bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref ar ôl iddi nosi; mae hyn yn is na Cheredigion (98%) a Phowys (99%) ar gyfer teimlo'n ddiogel.

**Siart 24: Teimlo'n ddiogel gartref ar ôl iddi dywyllu, yn ôl awdurdod lleol**





Roedd gwahaniaeth rhwng dynion a menywod, gyda 3% o ddynion a 6% o fenywod yn teimlo'n anniogel gartref ar ôl iddi dywyllu.

Dengys Siart 25 fod canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref ar ôl iddi dywyllu hefyd wedi newid rhwng grwpiau oedran.

[18] Diffinnir diogel fel y rhai a ddywedodd diogel iawn neu'n eithaf diogel, a diffinnir anniogel fel y rhai a ddywedodd anniogel iawn neu'n eithaf anniogel.

**Siart 25: Teimlo'n ddiogel gartref ar ôl iddi dywyllu, yn ôl grŵp oedran**




- Ar gyfartaledd, roedd 96% o bobl yng Nghymru yn teimlo'n ddiogel ar ôl iddi dywyllu.
- Dengys y siart mai'r rheini rhwng 16 a 24 oed oedd yn teimlo leiaf diogel gartref ar ôl iddi dywyllu (93%), ac ymhlith y grwpiau oedran 45-64 a 75 a throsodd y cafwyd y ganran uchaf a oedd yn teimlo'n ddiogel gartref ar ôl iddi dywyllu, sef 97% ar gyfer y ddau grŵp.

Yn ogystal â'r cwestiwn ar deimlo'n ddiogel gartref ar ôl iddi dywyllu, gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol ragor o gwestiynau am ddiogelwch personol ar drafnidiaeth gyhoeddus a cherdded yn eu hardal leol yn ogystal â chwestiynau ar ymdeimlad pobl o gymuned. Fodd bynnag, roedd canlyniadau 2012-13 a 2013-14 ar gyfer y cwestiynau hyn yn wahanol ac felly nis cyfunwyd i'w dadansoddi. Dadansoddir y cwestiynau hyn ym Mhrif ganlyniadau 2013-14.

## Cyllid personol


Nod [Strategaeth Cynhwysiant Ariannol] Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod gwasanaethau ariannol (e.e. cyngor ar fudd-daliadau a dyledion, addysg ariannol sylfaenol, cyfrifon banc a benthyciadau) ar gael am bris fforddiadwy i bobl ddifreintiedig a phobl ar incwm isel. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddeall graddau unrhyw dan-ddarpariaeth neu ddiffyg defnydd o wasanaethau sydd ar gael; a dysgu pa fathau o bobl yr effeithir arnynt, er mwyn helpu i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn 2012-13 a 2013-14 yn cynnwys cwestiwn ar p'un a oedd pobl yn cael unrhyw drafferth i dalu biliau ac ad-dalu benthyciadau. Yn ystod 2012-14, dywedodd 49%[19] (50% yn 2013-14) o bobl nad oeddent yn cael unrhyw drafferth i ymdopi â'u biliau ac ymrwymiadau ariannol; dywedodd 31% (30% yn 2013-14) ei bod yn anodd weithiau; dywedodd 12% ei bod yn anodd drwy'r amser; dywedodd 3% eu bod yn methu talu ambell i fil ac ymrwymiad credyd; dywedodd 1% eu bod yn cael problemau ariannol gwirioneddol, gan fethu talu nifer o filiau; a dywedodd 3% (4% yn 2013-14) nad oedd ganddynt unrhyw filiau.

Gyda dwy flynedd o ganlyniadau gallwn nawr edrych ar y canlyniadau yn fanylach, er enghraifft gallwn edrych i weld a oes unrhyw wahaniaethau yn ôl awdurdod lleol neu is-grwpiau amrywiol o bobl.

Dengys Siart 26 y sefyllfaoedd ariannol personol gwahanol yn ôl awdurdod lleol. Blaenau Gwent (31%) a Thorfaen (36%) oedd â'r ganran isaf o bobl a allai ymdopi â phob bil ac ymrwymiad heb unrhyw drafferth. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan (49%). Roedd gan Gonwy a Bro Morgannwg gyfran uwch o bobl a allai ymdopi â'u biliau (58%).

**Siart 26: Ymdopi â'r holl filiau ac ymrwymiadau heb unrhyw drafferth, yn ôl awdurdod lleol**




Dywedodd 19% (21% yn 2013-14) o bobl ifanc 16-24 oed nad oedd ganddynt unrhyw filiau o gymharu ag 1% neu lai ym mhob grŵp oedran arall; y rheini a oedd yn 75 oed a throsodd (69%) (71% yn 2013-14) a rhwng 65 a 74 oed (65%) oedd â'r ganran uchaf a oedd yn ymdopi â'u holl filiau ac ymrwymiadau. Grŵp oedran 16-24 oedd â'r gyfran isaf a oedd yn ymdopi â biliau ac ymrwymiadau credyd sef 36% (34% yn 2013-14). Y rheini rhwng 25 a 44 oed oedd â'r ganran uchaf o bobl yn y categorïau 'yn gallu

[19] 48% yn 2012-13 a 50% yn 2013-14. Roedd hyn yn wahaniaeth sylweddol rhwng y blynyddoedd; fodd bynnag, gan fod dosbarthiad y mathau o bobl mewn anhawster ariannol wedi aros yr un peth ar gyfer y ddwy flwyddyn, yn yr achos hwn rydym wedi cyfuno'r data i'w ddadansoddi ymhellach.

ymdopi â'r holl filiau ac ymrwymiadau ond mae'n anodd weithiau' (37%) (35% yn 2013-14) ac 'yn gallu ymdopi â'r holl filiau ac ymrwymiadau ond mae'n anodd drwy'r amser' (16%) (15% yn 2013-14).


Gyda dwy flynedd o ddata, mae modd cymharu sefyllfaoedd ariannol gwahanol yn ôl mathau o gartrefi gwahanol.

- Dywedodd 69% (71% yn 2013-14) o gartrefi pensiynwyr priod y gallent ymdopi â'r holl filiau ac ymrwymiadau heb unrhyw drafferth
- 22% (24% yn 2013-14) o bensiynwyr sengl (â phlentyn/plant) oedd â'r ganran isaf a oedd yn ymdopi â'r holl filiau ac ymrwymiadau heb unrhyw drafferth

Ar y cyfan, ymddengys mai cartrefi pensiynwyr priod a phensiynwyr sengl oedd yn y sefyllfa ariannol orau a'r rheini mewn cartrefi un rhiant oedd yn ei chael hi fwyaf anodd. Yn gyffredinol, roedd cartrefi â phlant (faint bynnag o oedolion sydd yn y cartref) yn ei chael hi'n anos na chartrefi heb blant.

Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol hefyd a oedd pobl wedi defnyddio gwasanaethau sefydliadau sy'n rhoi cyngor a chefnogaeth i bobl sy'n cael problemau gyda dyledion yn ystod y 12 mis diwethaf. Dim ond 4% o bobl a ddywedodd eu bod wedi defnyddio'r gwasanaethau hyn.

**Siart 27: Y rhai sy'n defnyddio sefydliad sy'n rhoi cyngor a chefnogaeth i bobl sy'n cael problemau gyda dyledion, yn ôl eu gallu i ymdopi â biliau ac ymrwymiadau credyd**




(a) Nid yw'r rhai a nododd dim biliau wedi'u cynnwys am fod nifer isel o ymatebion.

Mae Siart 27 yn dangos yn glir mai'r rheini sy'n 'ymdopi â'r holl filiau a'r ymrwymiadau heb unrhyw drafferth' sydd leiaf tebygol o geisio cyngor a chefnogaeth gyda dim ond 1% yn ceisio cyngor. Mae canran y rhai sy'n ceisio cyngor yn cynyddu wrth iddi ddod yn fwy anodd ymdopi â biliau ac ymrwymiadau credyd. Mae 40% o'r rhai mewn sefyllfa ariannol lle maent 'yn cael trafferthion ariannol gwirioneddol ac wedi methu talu nifer o filiau neu ymrwymiadau credyd' yn ceisio cyngor a chefnogaeth

Fel y nodwyd yn flaenorol, dengys canlyniadau cyfunol 2012-13 a 2013-14 mai dim ond 4% o bobl a geisiodd gyngor a chefnogaeth, felly roedd nifer y bobl a oedd yn ceisio cyngor ym mhob grŵp oedran hefyd yn fach. Fodd bynnag, roedd y grwpiau oedran iau yn fwy tebygol o geisio cyngor a chefnogaeth na'r rheini yn y grwpiau oedran hŷn. Pobl 75 oed a throsodd oedd leiaf tebygol o geisio cyngor a chefnogaeth, gyda dim ond 1% yn gwneud hyn, sy'n is na'r rhai 65-74 oed, lle'r oedd 2% yn ceisio cyngor a chefnogaeth. Pobl rhwng 25 a 44 oed oedd y mwyaf tebygol o geisio cyngor a chefnogaeth, gyda 5% yn gwneud hyn, sy'n uwch na'r holl grwpiau oedran eraill, gan gynnwys y rhai 16-24 a 45-64 oed, lle'r oedd 4% yn ceisio cyngor a chefnogaeth.

## Gwybodaeth allweddol o ansawdd

### Cefndir

Cynhelir yr Arolwg Cenedlaethol gan TNS-BMRB a Beaufort Research ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau a nodir yma yn seiliedig ar y sampl o gyfeiriadau a roddwyd i gyfwelwyr rhwng mis Ebrill 2012 a mis Mawrth 2014.

Dewiswyd ychydig dros 48,000 o gyfeiriadau ar hap o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post Defnyddwyr Bach y Post Brenhinol. Ymwelodd cyfwelwyr â phob cyfeiriad, dewiswyd un oedolyn (16+ oed) ar hap yn yr aelwyd a chynhaliwyd cyfweliad wyneb yn wyneb 25 munud o hyd gydag ef. Cynhaliwyd cyfanswm o 29,323 o gyfweliadau. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd ymateb o 69% yn 2012-13 a 70% yn 2013-14[20].

Mae'r canlyniadau'n cwmpasu dwy flynedd o waith maes (2012-13 a 2013-14). Cyfunwyd y canlyniadau o'r ddwy flynedd fel bod modd cynnal dadansoddiad manylach na fyddai'n bosibl ar sail un flwyddyn o ganlyniadau'n unig. Mae hyn yn ein galluogi i gynnal dadansoddiad manylach o rai is-grwpiau llai ac mae'n ei gwneud yn haws i nodi unrhyw wahaniaethau rhwng ardaloedd daearyddol. Mae'r canlyniadau yn dangos peth o'r gwaith dadansoddi sydd nawr yn bosibl ar sail dwy flynedd o ddata.

Mewn cyd-destun, mae'r canlyniadau yn cynnwys rhai prif ffigurau ar sail y ddwy flynedd o ddata a gyfunwyd. Fodd bynnag, gellir llunio prif ffigurau cadarn ar sail un flwyddyn o ddata ac felly lle mae canlyniadau diweddaraf 2013-14 yn wahanol i'r prif ffigurau cyfunol, nodir hyn yn y testun. I gael rhagor o wybodaeth am y canlyniadau diweddaraf, gweler datganiad cyntaf 2013-14.

### Pynciau a gwmpaswyd

Mae'r arolwg yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau, gan ganolbwyntio ar les a barn pobl ar wasanaethau cyhoeddus. Yn 2013-13 a 2013-14 y prif bynciau oedd:

- bodlonrwydd cyffredinol ar y systemau trafnidiaeth, iechyd ac addysg a Llywodraeth Cymru;
- hygyrchedd gwasanaethau meddygon teulu ac ysbytai a bodlonrwydd arnynt;
- ysgolion ac ymgysylltiad rhieni;
- gwasanaethau awdurdodau lleol;
- lles, yn cynnwys ansawdd yr ardal leol, ymddiriedaeth mewn sefydliadau, teimlo'n ddiogel a chyllid personol;
- mynediad i'r rhyngrwyd a'r defnydd ohono;
- larymau mwg

Mae'r holiadur llawn ar gael ar dudalennau gwe'r Arolwg Cenedlaethol.

### Dehongli'r canlyniadau

Mae'r canrannau a nodir yn y datganiad hwn ond yn seiliedig ar yr ymatebwyr hynny a roddodd ateb i'r cwestiwn perthnasol. Mae atebion ar goll am sawl rheswm, yn cynnwys pobl yn gwrthod neu fethu ateb cwestiwn penodol ac achosion pan nad oedd y cwestiwn yn berthnasol i'r ymatebydd.

Lle nodwyd cydberthynas rhwng dau ffactor, nid yw hyn yn golygu mai cydberthynas achosol ydyw. Bydd angen dadansoddiad manylach i nodi unrhyw achosion.

---

[20] Rhoddir manylion am y ffordd y cafodd maint y sampl ei gyfrifo yn yr Adroddiadau Technegol ar gyfer pob blwyddyn. Er enghraifft, nid yw'r gyfradd ymateb derfynol yn cynnwys cyfeiriadau gwag.

Ceir cyfeiriadau at ffynonellau gwybodaeth eraill drwy'r datganiad hwn. Nodwyd y ffynonellau hyn gan dîm yr Arolwg Cenedlaethol, drwy drafodaethau â chydweithwyr polisi a dadansoddi, a thrwy astudiaeth a gynhaliwyd ar ddechrau 2012. Ceir systemau i sicrhau mai'r ffigurau a nodir yw'r ffigurau diweddaraf oedd ar gael adeg ei gyhoeddi.

Caiff canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol eu pwysoli i unioni'r tebygolrwydd o ddethol mewn modd anghyfartal a diffyg ateb gwahaniaethol (h.y. i sicrhau bod dosbarthiad oedran a rhyw'r set ddata derfynol yn cyfateb i boblogaeth Cymru).

### Ansawdd y data

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 a dengys gydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Gall dynodiad gael ei ddehongli'n fras i olygu bod yr ystadegau:

- yn diwallu anghenion defnyddwyr a nodwyd;
- wedi'u hegluro'n dda ac ar gael yn hawdd;
- wedi'u cynhyrchu yn unol â dulliau cadarn;
- yn cael eu rheoli mewn ffordd ddiduedd a gwrthrychol er budd y cyhoedd.

Unwaith y dynodir ystadegau'n Ystadegau Gwladol mae'n ofyniad statudol i'r Cod Ymarfer barhau i gael ei ddilyn.

### Adroddiad Ansawdd

Mae Adroddiad Ansawddcryno ar gael, sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach ar ansawdd yr arolwg yn ogystal â chrynodeb o'r dulliau a ddefnyddir i lunio'r canlyniadau.

### Amrywioldeb samplu

Mae amcangyfrifon o'r Arolwg Cenedlaethol yn agored i rywfaint o ansicrwydd. Mae rhan o'r ansicrwydd yn deillio o'r ffaith y bydd unrhyw sampl o'r boblogaeth a ddewisir ar hap yn rhoi canlyniadau ychydig yn wahanol i'r canlyniadau a geir pe bai'r boblogaeth gyfan yn cael ei holi. Gelwir hyn yn gyfeiliornad samplu[21]. Gellir defnyddio cyfyngau hyder i roi syniad o faint y cyfeiliornad samplu.

Cyflwynir detholiad o'r canlyniadau a drafodir yn y bwletin hwn yn nhablau StatsCymru ynghyd â'u cyfyngau hyder o 95%. Gellir cyfrifo cyfwng hyder o amgylch amcangyfrif arolwg ac mae'n rhoi amrediad sy'n debygol o gynnwys y gwerth gwirioneddol. Mewn 95% o samplau arolwg, bydd y cyfwng hyder o 95% yn cynnwys y ffigur 'gwirioneddol' ar gyfer y boblogaeth gyfan (hynny yw, y ffigur y byddem yn ei gael pe byddai'r arolwg yn cwmpasu'r boblogaeth gyfan). Yn gyffredinol, po leiaf yw maint y sampl y mwyaf yw'r cyfwng hyder.

Gellir defnyddio cyfyngau hyder hefyd er mwyn helpu i ddweud a oes gwahaniaeth gwirioneddol rhwng dau grŵp. Fel canllaw bras i ddehongli, wrth gymharu dau grŵp, os yw'r cyfyngau hyder o amgylch yr amcangyfrifon yn gorgyffwrdd, gellir tybio nad yw'r amcangyfrifon yn wahanol iawn yn ystadegol - nid

[21] Trafodir cyfeiliornadau samplu yn fanylach yn yr Adroddiad Ansawdd ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol.

yw'r dull hwn mor drylwyr â chynnal prawf ystadegol ffurfiol, ond mae'n syml, fe'i defnyddir yn eang ac mae'n gymharol gadarn.

Cyfrifwyd y cyfyngau hyder o 95% a ddangosir yn Siartiau 4 i 8 yn nhablau StatsCymru gan ddefnyddio'r pecyn ystadegau Stata. Addaswyd y cyfyngau hyn i ystyried dyluniad yr arolwg ac maent yn fwy nag y byddent pe bai'r arolwg yn seiliedig ar sampl syml a ddewiswyd ar hap. Mae cyfyngau hyder ar gyfer amrywiaeth o amcangyfrifon allweddol o'r ddwy flwyddyn arolwg ar gael ym Mhennod 7 y ddau Adroddiad technegol.

Er mwyn sicrhau bod yr amcangyfrifon o'r Arolwg Cenedlaethol a nodir yn y bwletin hwn yn gadarn, rydym hefyd wedi cyfrifo'r cyfernod amrywiad (CV) ar gyfer pob amcangyfrif. Cyfrifir y CV fel y cyfeiliornad safonol wedi'i luosi â 100 a'i rannu â'r cyfartaledd. Nid ystyrir bod amcangyfrifon gyda CV o 20 neu fwy yn ddibynadwy at ddibenion ymarferol.

Rhoddwyd codau lliw i'r canlyniadau a gyflwynir yn yr Atodiad yn ôl y CV ar gyfer pob canlyniad fel a ganlyn.

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r amcangyfrif yn gywir | $0 \le CV < 5$ |
| | Mae'r amcangyfrif yn eithaf cywir | $5 \le CV < 10$ |
| | Ystyrir bod yr amcangyfrif yn dderbyniol | $10 \le CV < 20$ |
| | Nid yw'r amcangyfrif yn ddibynadwy | $20 \le CV < 20$ |
| - | Ni nodir gwerth oherwydd maint bach y celloedd (llai na 30 o ymatebion) | |

Fel gydag unrhyw arolwg, mae'r Arolwg Cenedlaethol hefyd yn agored i amrywiaeth o ffynonellau cyfeiliornadau eraill: er enghraifft, oherwydd diffyg ateb; oherwydd efallai na fydd ymatebwyr yn dehongli'r cwestiynau fel y bwriedir iddynt wneud hynny neu'n ateb yn anghywir; ac oherwydd y gall cyfeiliornadau ymddangos wrth i ganlyniadau'r arolwg gael eu prosesu. Gelwir y mathau hyn o gyfeiliornadau yn gyfeiliornad nad yw'n gyfeiliornad samplu, ac fe'u trafodir yn yr Adroddiad Ansawdd ar gyfer yr arolwg.

### Gwahaniaethau mawr

Lle mae testun y datganiad hwn yn nodi gwahaniaeth rhwng canlyniadau dau Arolwg Cenedlaethol, rydym wedi sicrhau nad yw'r cyfyngau hyder ar gyfer y ddau ganlyniad yn gorgyffwrdd. Mae hyn yn awgrymu bod gwahaniaeth mawr yn ystadegol (ond fel y nodir uchod, nid yw mor fanwl â chynnal prawf ystadegol ffurfiol), h.y. bod llai na 5% (1 mewn 20) o siawns o gael y canlyniadau hyn os nad oes gwahaniaeth rhwng yr un dau grŵp yn y boblogaeth ehangach.

Mae'n llai tebygol y bydd cadarnhau a yw dau gyfwng hyder yn gorgyffwrdd yn arwain at gasgliadau bod gwahaniaethau gwirioneddol rhwng grwpiau o gymharu â phrawf ystadegol ffurfiol.Hynny yw, mae'n fwy tebygol o arwain at "ganlyniadau negyddol ffug": casgliadau anghywir nad oes gwahaniaeth gwirioneddol pan mae gwahaniaeth mewn gwirionedd.Mae hefyd yn llai tebygol o arwain at "ganlyniadau cadarnhaol ffug": casgliadau anghywir **bod** gwahaniaeth pan nad oes gwahaniaeth mewn gwirionedd.Mae cynnal llawer o gymariaethau yn cynyddu'r siawns y ceir canlyniadau ffug. Felly, pan wnaeth gymariaethau, mae natur geidwadol y prawf yn fantais gan ei fod yn lleihau'r siawns hwn (ond nid yn ei ddileu).

Pan gaiff canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol eu cymharu â chanlyniadau o ffynonellau eraill, nid ydym wedi sicrhau nad yw'r cyfyngau hyder yn gorgyffwrdd.

### Adroddiad Technegol

Nodir gwybodaeth fanylach am fethodoleg yr arolwg yn yr adroddiadau technegolar gyfer y ddau arolwg.

### Diwygiadau

Mae gwybodaeth am ein polisi diwygio ar gael yma.

### Polisi rhyddhau

Ceir gwybodaeth am y broses o ryddhau canlyniadau newydd ar dudalennau gwe ystadegau Cymru.

### Argaeledd setiau data

Gellir gweld y data sy'n sail i'r siartiau a'r tablau yn y datganiad hwn mewn cyfres o daenlenni pwnc benodol ar StatsCymru.

Caiff fersiwn anhysbys o'r set ddata flynyddol (y mae rhywfaint o wybodaeth wedi'i dileu ohoni i sicrhau cyfrinachedd), ynghyd â dogfennau ategol, ei chadw yn Archif Ddata'r DU ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau hyn. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni (gweler isod).

### Rhagor o ddulliau o ddefnyddio'r canlyniadau

Caiff y canlyniadau eu defnyddio'n helaeth gan dimau polisi Llywodraeth Cymru, ond maent hefyd yn berthnasol i ystod eang o sefydliadau allanol ac unigolion eraill:

- mae Byrddau Iechyd wedi dangos diddordeb yng nghanlyniadau'r arolwg a sut y gellid eu defnyddio i fonitro bodlonrwydd cleifion. Byddai'r canlyniadau hefyd o ddefnydd i Fyrddau Iechyd fel cymharwr ar gyfer eu harolygon eu hunain, a dylai fod o ddiddordeb i sefydliadau fel Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg Cenedlaethol Cymru.
- Bydd y canlyniadau o ddiddordeb i ystod eang o sefydliadau allanol fel awdurdodau lleol, at ddibenion cynllunio ac adrodd.
- Bydd y canlyniadau hefyd o ddiddordeb i sefydliadau gwirfoddol, rhwydwaith cyfathrebwyr Gwasanaethau Cyhoeddus CommsCymruac academyddion.

### Cyswllt

Lisa Walters
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhif ffôn: 029 2082 6685
E-bost: arolygon@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan: http://cymru.gov.uk/arolwgcenedlaethol

## Termau a diffiniadau

### Opsiynau ateb

Rydym wedi cyfuno opsiynau ateb ar gyfer cwestiynau sy'n gofyn am farn yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

| Opsiynau ateb: | Cofnodwyd fel: |
| --- | --- |
| Bodlon iawn ac eithaf bodlon | Bodlon |
| Anfodlon iawn ac eithaf anfodlon | Anfodlon |
| Hawdd iawn a gweddol hawdd | Hawdd |
| Anodd iawn ac eithaf anodd | Anodd |
| Cytuno'n gryf a thueddu i gytuno | Cytuno |
| Anghytuno'n gryf a thueddu i anghytuno | Anghytuno |
| Diogel iawn ac eithaf diogel | Diogel |
| Anniogel iawn ac eithaf anniogel | Anniogel |

### Cyfartaledd

Pan ddefnyddir y gair 'cyfartaledd' yn yr adroddiad hwn mae'n cyfeirio at gymedr rhifyddol.

### Consortia

Cyrff a gaiff eu sefydlu gan awdurdodau lleol er mwyn darparu gwasanaethau gwella ysgolion yn rhanbarthol yw consortia. Mae'r tabl isod yn dangos pa awdurdodau lleol sy'n rhan o bob consortia.

| Ardal consortia | Awdurdod Lleol |
| --- | --- |
| Gogledd Cymru | Ynys Môn |
| | Gwynedd |
| | Conwy |
| | Sir Ddinbych |
| | Sir y Fflint |
| | Wrecsam |
| De-orllewin a Chanolbarth Cymru | Powys |
| | Ceredigion |
| | Sir Benfro |
| | Sir Gaerfyrddin |
| | Abertawe |
| | Castell-nedd Port Talbot |
| Canol De Cymru | Caerdydd |
| | Pen-y-bont ar Ogwr |
| | Bro Morgannwg |
| | Rhondda Cynon Taf |
| | Merthyr Tudful |
| De-ddwyrain Cymru | Caerffili |
| | Blaenau Gwent |
| | Torfaen |
| | Sir Fynwy |
| | Casnewydd |

**Anweithgarwch economaidd**
Pobl nad ydynt yn gweithio, ond nad ydynt yn bodloni diffiniad y Mudiad Llafur Rhyngwladol o ddiweithdra (yn awyddus i gael swydd, wedi chwilio yn ystod y pedair wythnos diwethaf ac ar gael i ddechrau gweithio yn ystod y pythefnos nesaf). Mae hyn yn cynnwys pobl sydd wedi ymddeol ac eraill nad ydynt wrthi'n chwilio am waith.

**Aelwyd** - Diffinnir aelwyd fel un person sy’n byw ar ei ben ei hun neu grŵp o bobl (nad ydynt o reidrwydd yn perthyn i’w gilydd) sy’n byw yn yr un cyfeiriad sy’n rhannu gofal tŷ cyffredin - sef, rhannu lolfa, ystafell fyw neu o leiaf un pryd y diwrnod.

**Rhiant** - Defnyddir y term 'rhieni' yn yr adroddiad hwn i gyfeirio at rieni a gwarcheidwaid cyfreithlon plant o dan 20 oed.

**Pobl** - Yn yr adroddiad, mae 'pobl' ond yn cyfeirio at oedolion 16 oed a throsodd.

**Trefol / gwledig** - Mae "trefol" yn cynnwys aneddiadau gyda phoblogaeth o 10,000 neu fwy a threfi bach a'u cyrion, lle mae poblogaeth yr ardal gyfagos ehangach yn fwy prin ei phoblogaeth. Mae "gwledig" yn cynnwys pob ardal arall